**Lesley Griffiths AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AM
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

19 Ebrill 2018

Annwyl David

Cyfarfu'r Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid â'r "Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol" ar 5ed Mawrth pryd y gofynnwyd nifer o gwestiynau iddo ynghylch Papur Gorchymyn Amaethyddiaeth y DU. Mae hyn yn syrthio o fewn cylch gwaith fy mhortffolio ac felly mae wedi gofyn i mi ymateb.

Fel y nodwyd yn fy natganiad ysgrifenedig, 21ain Mawrth, daw Brexit â newidiadau sylweddol a chyflym. Mae'r cyfuniad o adael y Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r trefniadau masnachu newydd yn golygu na wnaiff cadw pethau fel y maent mo'r tro. Rwy'n croesau'r math yma o ymchwiliad gan y Pwyllgor, ac yn credu ei fod yn iawn i'r Cynulliad graffu'n llawn ar ein polisïau a'n cynigion.

Mae rhan fwyaf y polisïau i gefnogi ffermio wedi'u pennu o fewn rheoliadau'r UE ar hyn o bryd. Bydd y Bil Ymadael yn golygu y cânt eu cynnwys o fewn cyfraith Prydain, ac rydym yn brwydro i sicrhau bod gan y Cynulliad y pŵer i ddiwygio'r ddeddfwriaeth yn y maes hwn. Heb newid y ddeddfwriaeth sylfaenol, ychydig iawn o bwerau sydd gennym i newid sylfaen y taliadau naill ai wrth bontio, cadw'r sefyllfa fel y mae neu ar gyfer gorfodi, archwilio a chaffael gwariant.

Mae fy swyddogion mewn trafodaethau ar hyn o bryd gyda swyddogion o weinyddiaethau eraill Prydain, i gytuno ar ba ddeddfwriaeth a fframweithiau fydd eu hangen o bosibl a ble y gallai trefniadau eraill, mwy ffurfiol megis Memoranda Cyd-ddealltwriaeth fod yn berthnasol. Byddaf yn gwneud penderfyniadau ar ddeddfwriaeth unwaith y bydd y trafodaethau hyn wedi datblygu. Er hynny mae'n debygol bydd angen deddfwriaeth sylfaenol newydd i newid polisïau Cymru yn y maes hwn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd y pum egwyddor a bennwyd yn fy Natganiad Ysgrifenedig yn dod yn sail ar gyfer polisïau amaethyddol yng Nghymru wedi Brexit. Maent yn awgrymu newid sylweddol ac mae'n rhaid inni gael cyfnod pontio dros nifer o flynyddoedd sydd wedi'i gynllunio'n dda.

Mae'n rhaid hefyd trefnu ymgynghoriad priodol. Dyma pam rwyf wedi lansio cyfnod newydd o ymgysylltu dwys â rhanddeiliaid er mwyn inni gydweithio ar y manylion. Drwy fy Mord Gron, byddaf yn sefydlu gweithgorau newydd a fydd yn ystyried sut orau i roi'r egwyddorion ar waith. Bydd y grwpiau hyn yn helpu Llywodraeth Cymru i lunio cynnig cychwynnol i ddiwygio erbyn toriad yr haf. Bydd angen rhagor o waith manwl cyn i gynigion deddfwriaethol penodol gael eu cynnig.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol. Mae croeso i chi gysylltu â mi os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs